Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM

# Rydym yn trawsnewid y ffordd o ddarparu cyfiawnder oherwydd bod cyfiawnder yn bwysig

## Ein hegwyddorion arweiniol

- **Cyfiawn** – mae'r farnwriaeth annibynnol yn cael ei chefnogi gan brosesau sy'n fodern, yn dryloyw ac yn gyson
- **Cymesur** – mae'r gost, y cyflymder a'r cymhlethdod yn briodol i natur yr achos
- **Hygyrch** – mae'n fforddiadwy, yn ddealladwy, ac ar gael i'w defnyddio gan bawb

## Y Byd sydd ohoni heddiw

Yn y **byd modern** ,mae angen i wasanaethau fanteisio ar dechnoleg, a'u cynllunio o amgylch y bobl sy'n eu defnyddio. Mae arnom angen **system gyfiawnder gyfatebol.**

Mae cyfiawnder yn aml yn cael ei ystyried fel proses hir a chymhleth. Mae gennym hen adeiladau llys, llawer o bapur, a gall fod yn anodd i bobl gael y gefnogaeth maent arnynt ei hangen i gael mynediad at gyfiawnder heddiw. Rydym yn newid hyn i gyd.

## Buddsoddi ar gyfer newid

Rydym yn gwella'r ffordd o ddarparu cyfiawnder yn y DU yn sylweddol ac yn barhaol. Mae hyn yn golygu buddsoddi mewn systemau a phrosesau gwell ar **raddfa fawr,** a meddwl eto am y ffyrdd rydym wedi arfer gwneud pethau yn y gorffennol.

Sut y defnyddir ein buddsoddiad o £1 biliwn?

- Adeiladu system ddigidol ar gyfer y system cyfiawnder troseddol – cysylltu'r heddlu, yr erlynwyr a'r llysoedd – rhoi'r gorau i brosesau papur araf
- Cyflwyno technoleg ddigidol yn y llys sifil, y llys teulu a'r tribiwnlysoedd, gan gynnwys datblygu llys newydd ar-lein ar gyfer datrys materion syml yn gyflym
- Hyfforddi a datblygu pobl mewn sawl maes, gan gynnwys sgiliau digidol a sgiliau gwasanaeth cwsmer rhagorol

## Technoleg fodern sy'n cael ei lywio gan y Cwsmer

Bydd y gwasanaethau'n gyson, yn ddisgwyliedig ac yn hawdd i'w deall.

Bydd pobl yn gallu gwneud y canlynol **Ar-lein**:

- Dod o hyd i wybodaeth a chanllawiau am y system gyfiawnder
- Cychwyn a mynd a'u hachos ymlaen
- Cael mynediad at wybodaeth am eu hachos
- Datrys anghydfodau drwy'r llys ar-lein

Bydd cymorth ar gael i ddefnyddwyr sydd angen help gyda gwasanaethau digidol.

## Dulliau modern sy'n cael ei lywio gan y Cwsmer

Yn y byd modern sydd ohoni, mae cyfiawnder yn, a dylai, gael ei ddarparu mewn modd priodol, ac efallai na fydd hynny bob amser yn bersonol.

- Byddwn yn darparu cyfiawnder ar-lein a drwy gyswllt fideo, gan nad oes angen mynd i lys i ddelio ag anghydfodau ffiniau neu hawliadau bychain am arian fel arfer.
- Bydd gennym adeiladau llys gwell, ond llai ohonynt ar gyfer yr achosion hynny nad oes angen eu gwrando yn bersonol. Bydd yr adeiladau'n fwy hyblyg o ran gwaith, a byddwn yn eu defnyddio yn fwy effeithlon.
- Bydd ein staff yn y ganolfan gwasanaethau cwsmeriaid ar gael i sgwrsio dros y ffôn ac ar y we, a byddant yn helpu pobl i drefnu sesiwn cymorth digidol wyneb yn wyneb os oes angen.

**Rydym eisiau gwneud y system gyfiawnder yn haws i'w defnyddio ac yn fwy effeithlon i bawb.**

**O ganlyniad, bydd gwasanaeth mwy effeithiol, sy'n canolbwyntio ar anghenion y cwsmeriaid.**

**Mae eich barn yn bwysig.**

**Rhowch wybod inni beth yw eich barn, neu gallwch ddod o hyd i ragor o fanylion drwy gysylltu â:**
**changesomethingthatmatters@hmcts.gsi.gov.uk**